

Gorffennaf 2003

Beth R. Crisp, Mark R. Anderson, Joan Orme a Pam Green Lister

Er i asesu gael ei gydnabod fel sgil sylfaenol ym maes gwaith cymdeithasol a ddylai hefyd ategu ymyriadau gwaith cymdeithasol, nid oes yna ddamcaniaeth na dealltwriaeth benodol ynglŷn â phwrpas asesu, na'r hyn y dylai'r broses honno ei olygu. Gallai cyfraniad gwaith cymdeithasol at y broses asesu gynnwys nodi cymhwysedd neu'r angen am wasanaethau, chwilio am dystiolaeth o ddigwyddiadau yn y gorffennol neu benderfynu pa mor debygol yw perygl yn y dyfodol. Gallai gynnig argymhellion i asiantaethau eraill, neu benderfynu pa mor addas yw darparwyr gwasanaethau eraill. Dan rai amgylchiadau, ystyrir asesu yn broses gymharol fyr sy'n dechrau o'r pwynt cyswllt cyntaf, ond dan amgylchiadau eraill gall fod yn broses sy'n cynnwys sawl cleient dros gyfnod estynedig. Mae'r amrywiadau hyn yn treiddio trwy lenyddiaeth ar ddysgu sut i asesu ym maes cymdeithasol a disgyblaethau cytras.

Mae dysgu ac addysgu sut i asesu ym maes rhaglenni gwaith cymdeithasol cymhwysol yn tueddu i fod yn rhan o'r cwricwlwm ac wedi'i gynnwys mewn amcanion dysgu eraill yn hytrach na'i ddysgu fel modiwl annibynnol. Fel y cyfryw, mae'n gallu bod yn anodd gwahaniaethu rhwng addysgu am asesu ac agweddau eraill ar y cwricwlwm. Mae'n bosib, yn sgîl diffyg eglurder ynglŷn â'r berthynas rhwng addysgu a dysgu am asesu, y bydd myfyrwyr yn ystyried nad ydynt wedi dysgu fawr ddim am asesu. Mae cynnwys asesu yn y cwricwlwm mewn rhaglenni cymhwysol yn cyferbynnu â'r adroddiadau niferus sydd wedi eu cyhoeddi am gyrсияu addysgu dulliau penodol o asesu i weithwyr cymwys.

Caiff sawl agwedd wahanol ar addysgu am asesu eu cynnig yn y llenyddiaeth. Caiff addysgu ar sail achos ei gynnig yn aml, er y gall hyn gael ei amlygu mewn nifer o ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno astudiaethau achos (yn seiliedig ar achosion gwirioneddol neu adroddiadau dychmygol mewn ffilm neu lenyddiaeth) gan academyddion, staff yr asiantaeth neu fyfyrwyr, a gallant gael eu hatodi gan adborth gan randdeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a sefydliadau defnyddwyr gwasanaethau. Gellir cynnal cyfweiliadau gydag actorion sydd wedi eu hyfforddi i chwarae 'cleientiaid nodweddiadol' a derbyn adborth ganddynt. Mae dull pellach ar sail achos yn cynnwys arsylwi ar blant a theuluoedd. Mae darlithio didactig a defnyddio cyfarpar fideo a chyfrifiaduron mewn ffyrdd gwahanol wedi eu cynnig hefyd.

Mae dysgu trwy wneud wedi bod yn un o nodweddion addysg gwaith cymdeithasol ers tro byd, ac mae dysgu ymarfer wedi ei oruchwylio mewn asiantaethau yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu'r

sgiliau asesu a ddysgwyd yn y dosbarth. Tra bo dysgu yn y dosbarth yn cynnwys rhannau cydrannol o'r broses asesu fel gwrando a gofyn, sy'n cael eu dysgu weithiau mewn labordai sgiliau, mae hefyd nifer o fodiwlau dysgu ymarfer asesu yn y brifysgol sy'n tueddu i gynnwys myfyrwyr yn cynhyrchu asesiadau dan oruchwyliaeth staff y brifysgol.

Mae cryn dipyn o lenyddiaeth wedi ei chyhoeddi sy'n ymwneud â dysgu am ddulliau neu fframweithiau arbennig ar gyfer asesu. Mae'r rhan fwyaf yn cyfeirio at raglenni hyfforddi i weithwyr cymwys ac mae llawer ohonynt yn seiliedig mewn asiantaeth. Fodd bynnag, ar y lefel gymhwysol, mae yna beth dadlau ynglŷn ag a yw dysgu am y fframweithiau a'r dulliau yn llywio neu'n llesteirio datblygiad sgiliau asesu y gellir eu trosglwyddo.

Nid yw asesiadau'n digwydd ar eu pen eu hunain ac, er mwyn cynnal asesiad, mae'n ofynnol bod gennych wybodaeth am y broses asesu yn ogystal â'r gallu i bwysu ar sgiliau gwaith cymdeithasol ehangach a gwybodaeth am y gwyddorau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am broblemau cymdeithasol a grwpiau arbennig o gleientiaid, sgiliau'n ymwneud ag ymchwil, cyfnewid a meddwl yn feirniadol, yn ogystal â sensitifrwydd diwylliannol. O ganlyniad, gall effeithiolrwydd addysgu sut i asesu fod yn llai effeithiol os nad yw myfyrwyr yn cael digon o gyfle i gael y wybodaeth a'r sgiliau ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn cynnal yr asesiadau priodol.

Mae angen ystyried y berthynas rhwng yr hyn sy'n cael ei addysgu yn y dosbarth ac arferion asesu mewn asiantaethau gwaith cymdeithasol yn ofalus. Tra gall addysgwyr ddadlau mai eu swyddogaeth yw addysgu egwyddorion asesu, efallai y bydd cyflogwyr am gyflogi gweithwyr cymdeithasol sy'n gyfarwydd â'r fframweithiau a'r dulliau asesu a ddefnyddir gan eu hasiantaeth ar hyn o bryd. Er enghraifft, i ba raddau y dylid dysgu dulliau asesu sy'n cynnwys cryn amser yn casglu a dadansoddi gwybodaeth os yw'n ofynnol i ymarferwyr gynnal asesiadau mewn amser byr? Rhaid pwysu a mesur cwestiynau o'r fath o ystyried bod gweithwyr cymdeithasol fel petaent yn anghofio eu hyfforddiant ym maes asesu os nad yw'n amlwg berthnasol i'w gwaith cyfredol. Mae hefyd yn hanfodol bod gweithwyr cymdeithasol yn gallu meddwl yn feirniadol am y dulliau asesu maent yn eu defnyddio.

Roedd sawl un o'r dulliau arloesol a gyhoeddwyd ym maes addysgu sut i asesu yn cynnwys nifer bychan o fyfyrwyr ac yn gofyn am adnoddau sylweddol o ran amser staff a/neu gyfarpar. Rydym yn amau y byddai gan lawer o raglenni gwaith cymdeithasol yn y DU yr adnoddau ariannol na'r staff i weithredu rhai o'r rhain, yn enwedig y rhai hynny â nifer sylweddol o fyfyrwyr. Hefyd, mae'r ddogfennaeth addysgu sydd ar gael yn aml yn cynnwys ychydig neu ddim gwybodaeth am werthuso y tu hwnt i'r sylwadau eu bod yn fodlon gan naill ai'r myfyrwyr a/neu eu hathrawon. Yn wir, roedd yr adroddiadau oedd wedi eu cyhoeddi am addysgu sut i asesu a oedd yn cynnwys rhywfaint o werthuso manwl o effeithiau neu ganlyniadau yn gymharol brin, gydag 11 papur yn unig allan o 60 a adolygwyd yn cynnwys y wybodaeth hon.

Oherwydd y diffyg data gwerthuso sy'n bodoli sy'n mynd y tu hwnt i raddio bodlonrwydd, mae'n anodd i ni argymhell un dull neu fwy fel arfer gorau o ran addysgu sut i asesu. Fodd bynnag, gallai'r

pwyntiau canlynol eich arwain wrth i chi ddatblygu arfer da yn yr agwedd hon ar y cwricwlwm gwaith cymdeithasol:

- Egwyddorion asesu: mae angen i raglenni gwaith cymdeithasol sicrhau bod gan weithwyr cymdeithasol sy'n graddio ddealltwriaeth o egwyddorion asesu. Er y gellir defnyddio fframweithiau a dulliau asesu penodol fel patrymau, gall addysgu sy'n canolbwyntio'n bennaf ar weinyddu'r rhain gynhyrchu gweithwyr cymdeithasol sydd â sgiliau asesu na ellir eu trosglwyddo i grwpiau cleientiaid a sefyllfaoedd eraill.
- Cynnwys yn y cwricwlwm: hyd yn oed os yw addysgu sut i asesu wedi ei gynnwys yn y cwricwlwm yn hytrach na'i addysgu fel elfen ar wahân o'r rhaglenni gwaith cymdeithasol cymhwysol, dylai darparwyr y rhaglenni allu esbonio sut i gyflawni'r amcanion dysgu o ran sgiliau asesu.
- Dysgu ymarfer: mae angen i fyfyrwyr gael y cyfle i weithredu'r hyn a ddysgwyd ganddynt yn ddamcaniaethol ynglyn ag asesu. Gall hyn ddigwydd mewn dysgu ymarfer mewn prifysgol ac mewn dysgu ymarfer wedi ei oruchwylio.
- Gweithio mewn partneriaeth: dylai darparwyr rhaglenni gwaith cymdeithasol weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys cyflogwyr a sefydliadau defnyddwyr gwasanaethau, i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael amrywiaeth o safbwyntiau am y broses asesu.
- Sylfaen sgiliau a gwybodaeth: mae angen i raglenni gwaith cymdeithasol sicrhau bod gan raddedigion nid yn unig y wybodaeth am y broses asesu ond hefyd y gallu i ddefnyddio stoc ehangach o sgiliau gwaith cymdeithasol a gwybodaeth am y gwyddorau cymdeithasol wrth ymgymryd ag asesiadau.

## Nodiadau

Comisiynwyd yr adolygiad hwn gan y Sefydliad dros Ragoriaeth Gofal Cymdeithasol (SCIE) mewn cydweithrediad â'r Rhwydwaith Cefnogi Dysgu ac Addysgu Gwaith Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol (SWAP)tsn) fel rhan o raglen waith i gefnogi gweithredu'r radd gwaith cymdeithasol newydd. Mae copïau o'r adolygiad llawn ar gael gan SCIE ([publications@scie.org.uk](mailto:publications@scie.org.uk)) neu ar wefan SCIE ([www.scie.org.uk](http://www.scie.org.uk)). Bydd yr adolygiad yn sail i ganllaw ar adnoddau i addysgwyr gwaith cymdeithasol, a fydd ar gael tua diwedd 2003.

Mae gweithiau eraill yn y rhaglen yn cynnwys sut y gall asiantaethau gefnogi gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso wrth iddynt ddysgu, rhan athrawon ymarfer a datblygiad

adnodd ar lythrennedd ymchwil ar y we. Bydd adolygiad o ddefnydd ymchwil yn cyfeirio at weithwyr cymdeithasol cymwys fel rhan o weithlu ehangach gofal cymdeithasol.

Social Care Institute for Excellence  
Goldings House  
2 Hay's Lane  
Llundain SE1 2HB  
Ffôn 020 7089 6840  
Ffacs 020 7089 6841  
Ffôn testun 020 7089 6893  
[www.scie.org.uk](http://www.scie.org.uk)

Bydd fersiwn braille, ar dâp ac argraffiadau print bras ar gael ar gais.

Mae adolygiadau pellach yn y rhaglen hon yn cynnwys dysgu ac addysgu sgiliau cyfathrebu, y gyfraith, gweithio mewn partneriaeth, addysg ryngbroffesiynol ac ymddygiad a thwf dynol.